

# Paratoi i ddarparu’r Cymhwyster Sylfaen

# Preparing to deliver the Foundation Qualification

City & Guilds | eal

# Agenda

Croeso a Chyflwyniad

Pam y trawsnewid

Cynnwys y cymhwyster sylfaen

Strwythur yr unedau

Amlinelliad o'r asesiadau

Gweithgarwch cynllunio

Adnoddau dysgu

Y camau nesaf

Holi ac ateb

# Agenda

Welcome and introduction

Why the transformation

Foundation qualification content

Structure of the units

Outline of assessments

Planning activity

Learning resources

Next steps

Questions and answers

# Cyfarfod y Tîm
# Meet the team



**David Pye**

Cynghorydd Technegol Gwasanaethau Adeiladau, City & Guilds

Technical Advisor Building Services, City & Guilds



**Angharad Lloyd-Beynon**

Rheolwr Busnes Cymru, City & Guilds

Wales Business Manager, City & Guilds



**Ian Roberts**

Cynghorydd Technegol Adeiladu, City & Guilds

Technical Advisor Construction, City & Guilds



# Pam y trawsnewid?

# Why the transformation?




# Adolygiad Sector
# Sector Review

## Y cyd-destun ar gyfer newid

Adolygiad y sector Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (CBE) yn gosod cyd-destun ar gyfer newid - sefydliadau a chyflogwyr/canolfannau bach a mawr

Amlinellu’r canfyddiadau:

- Ymarfer asesu gwael
- Rhai meysydd dysgu heb eu hasesu’n effeithiol
- Rhaid i ddysgwyr ymdrin ag ystod o dasgau a datrys problemau

## Bodloni anghenion sgiliau Cymru

Gwneud y system o ddarparu 400+ cymhwyster yn **llai cymhleth**

Gwella cysondeb drwy ddarparu llwybrau clir

Llwybrau datblygu clir drwy fframwaith sy’n arwain at waith neu addysg uwch

**Cludadwyedd** yng Nghymru a thu hwnt

# Nod
# Aims

- **Dilysrwydd** – dysgwyr sy’n hyderus yn y diwydiant wedi ennill cymhwyster ystyrlon
- **Dibynadwyedd** – mae asesu yn deg ac yn gyson
- **Hyblygrwydd a’r Gallu i Reoli** – amseriad / lleoliad hyblyg
- **Cefnogaeth** – gwneud rolau tiwtoriaid/aseswyr yn haws eu rheoli
- **Cynllunio** – yn hyblyg gan ganiatáu i ddarparwyr amserlennu eu rhaglen gyflawni eu hunain

# Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
# Stakeholder Engagement

Mae'r cynnwys wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'r rhanddeiliaid canlynol,

- **Cynghorwyr technegol**
- **Ymarferwyr presennol**
- **Diwydiant gan gynnwys contractwyr micro, bach, canolig a mawr ar draws y sector**
- **Cytundeb trwy QiW**

Wedi'i gynhyrchu gan eich cyfoedion, pobl sydd â phrofiad o ddarparu cymwysterau Adeiladu i ddatblygu asesiadau, adnoddau dysgu a chynnwys o ansawdd uchel.

# Negeseuon Messaging

## Llunio'r dyfodol:

**Cefnogi Cymru i osod sylfeini ar gyfer dyfodol mwy disglair ym maes adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu**

## Magu hyder yn y newidiadau sydd ar y ffordd - drwy eich helpu i baratoi

### Pawb
**Cyd-destun ar gyfer newid**

- Adolygiad sector CBE
- Amlinellu'r canfyddiadau:
  - Arferion asesu
  - Amrywiaeth o dasgau a datrys problemau
- Lleihau cymhlethdodau Gwella cydlyniad
- Llwybrau datblygu
- Cludadwyedd

### Cyflogwyr a sefydliadau
**Egluro'r broses asesu**

- Recriwtiaid sy'n wybodus ac yn fedrus
- Cyd-destun asesu syml
- Wedi'u creu i ddiwallu anghenion y gweithlu modern
- Cadarnhad gan y cyflogwr o gymhwysedd y prentis
- Darparu dealltwriaeth traws-fasnachol

### Canolfannau darparu
**Eich cefnogi chi drwy newid**

- Wedi'i gefnogi'n llawn
- Cymeradwyaeth syml ar gyfer canolfannau newydd
- Ymwybyddiaeth traws-fasnachol yn y gweithle er mwyn gwneud gweithwyr gwell
- Cefnogi gwlad ddwyieithog
- Strategaeth asesu wedi'i moderneiddio
- Dull asesu safonol

### Rhieni a dysgwyr
**Dysgu'n ymarferol**

- Mae adeiladwaith yn sector cyffrous i ddysgu a gweithio ynddi
- Gwybodaeth a sgiliau perthnasol y mae cyflogwyr yn eu parchu
- Amrediad perthnasol o ddulliau asesu
- Adnoddau sy'n helpu i fagu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau
- Cymwysterau cydnabyddedig gyda chynnydd clir

# Y fframwaith cymwysterau
# Qualification framework

| Lefel | Cymwysterau | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Prentisiaeth Lefel 3 (Yn Fyw Medi 2021)** | Adeiladu Lefel 3 (City & Guilds) | Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 (EAL) | | |
| **Lefel 2 (Yn Fyw Medi 2021)** | Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (City & Guilds) | Cymhwyster Craid mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (City & Guilds) | Cymhwyster Dilyniant mewn Adeiladu (City & Guilds) | Cymhwyste Dilyniant mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (EAL) |
| **TAG Safon UG / TAG Safon Uwch**<br>**Lefel 1** | Lefel 1 mewn Adeiladu a Phlymio/Trydanol **Yn fyw: Medi 21 (6219/7202)** (City & Guilds) | TAG Safon UG mewn Amgylchedd Adeiledig **Yn fyw: Medi 22** (CBAC) | TAG Safon Uwch mewn Amgylchedd Adeiledig **Yn fyw: Medi 22** (CBAC) | |
| **TGAU** | TGAU mewn Amgylchedd Adeiledig **Yn fyw: Medi 21** (CBAC) | | | |

Cynigir gan City and Guilds

Cynigir gan EAL

Cynigir gan CBAC

# Cwestiynau sydd gennych
# Questions you may have

| Cwestiynau Cyffredin | Ateb |
|---|---|
| **Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?** | • **Mae'r Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)** yn darparu cyflwyniad eang i'r maes adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu. Mae wedi'i ddatblygu ar gyfer unigolion sy'n gweithio, neu'n bwriadu gweithio, yn y sectorau hyn |
| **I bwy mae'r cymhwyster?** | • **Mae wedi'i anelu at ddysgwyr sy'n cyflawni dysgu seiliedig ar waith ac addysg bellach.** Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i fynd ymlaen i astudio amrywiaeth o gyrsiau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu **lefel 2 neu 3 eraill** sy'n berthnasol i'r grefft sydd o ddiddordeb iddynt.<br>• **dysgwyr 16+ oed** sy'n gweithio, neu'n bwriadu gweithio, yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig<br>• **gweithredwyr safleoedd** sydd eisiau ehangu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau o fewn y sector yn fwy cyffredinol. |
| **Beth fydd y modd mynychu?** | • **Gellir dilyn y cymhwyster naill ai fel rhaglen ddysgu amser llawn, dros flwyddyn gan amlaf; fel rhaglen ddysgu ran-amser mewn *fframwaith Prentisiaeth.** |
| **Pa gyfleoedd datblygu sydd ar gael?** | • **Cymhwyster Dilyniant** mewn Adeiladu Lefel 2 - City & Guilds<br>• **Cymhwyster Dilyniant** mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (BSE) Lefel 2 - EAL |

# Cymhwyster sylfaen
# Foundation qualification

Y **Cymhwyster Sylfaen yw'r pwynt mynediad ar gyfer dysgwyr** sy'n dymuno dechrau ar eu taith tuag at gymhwysedd galwedigaethol yn y maes adeiladu neu beirianneg gwasanaethau adeiladu.

Mae'r Cymhwyster Dilyniant wedi cael ei gynllunio fel **ail flwyddyn ddewisol i ddysgwyr ei wneud ar ôl y Cymhwyster Sylfaen.** Mae'n arbennig o ddefnyddiol fel rhaglen astudio ystyrlon mewn addysg llawn amser os nad yw'r dysgwr wedi cael lle ar brentisiaeth.

**Mae'r diagram hwn yn dangos y gwahanol deithiau a gymerwyd gan ddysgwyr drwy'r gyfres newydd o gymwysterau a sut mae'r Cymhwyster Sylfaen yn fan cychwyn**

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 |
|---|---|---|---|---|
| Opsiwn A<br>Dysgu'n llawnamser am flwyddyn cyn cael prentisiaeth | Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu | Lefel 3 Adeiladu - yn eich dewis crefft i arbenigo ynddi (Cymhwyster prentisiaeth) | | |
| | | Lefel 3 Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu yn eich dewis crefft i arbenigo ynddi (Cymhwyster prentisiaeth) | | |
| Opsiwn B<br>Dysgu'n llawnamser am ddwy flynedd cyn cael prentisiaeth | Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu | Cymhwyster Cynnydd (mewn dewis crefft Adeiladau neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu) | Lefel 3 Adeiladu yn eich dewis crefft i arbenigo ynddi (Cymhwyster prentisiaeth) | |
| | | | Lefel 3 Peirianneg Gwasanaethau Adeiladuyn eich dewis crefft i arbenigo ynddi (Cymhwyster prentisiaeth) | |
| Opsiwn C<br>Dilyn y cymhwyster Craidd neu Sylfaen wrth ymgymryd â phrentisiaeth | Cymhwyster Craidd neu Sylfaen a Lefel 3 Adeiladu (Cymhwyster prentisiaeth) | | | |
| | Cymhwyster Craidd neu Sylfaen a Lefel 3 Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Cymhwyster prentisiaeth) | | | |



# Cynnwys y Cymhwyster Sylfaen

# Foundation Qualification Content

# Meysydd masnach cymwysterau

# Qualification trade areas

## Cymhwyster Sylfaen a Chymhwyster Craidd (City & Guilds)

- Gweithio gyda brics, blociau a cherrig
- Galwedigaethau Gwaith Coed
- Gorffeniad Addurnol a phaentio diwydiannol.
- Plastro a systemau mewnol
- Galwedigaethau Toi
- Galwedigaethau Adeiladu a Pheirianneg Sifil
- Teilsio Waliau a Lloriau
- Gwaith Peiriannau
- Plymio, gwresogi ac awyru
- Systemau electrodechnegol

## Cymhwyster Cyn-Sylfaen/Lefel 1 (City & Guilds)

- Sgiliau Adeiladu*
- Plymio a Thrydanol *

## Cymhwyster Dilyniant Adeiladu (City & Guilds)

- Gosod brics
- Gwaith Coed Pensaernïol
- Gwaith Coed ar y Safle
- Gosod Fframiau Pren
- Paentiwr
- Plastro Soled
- Leinio Sych
- Töwr - Llechi a Theils
- Gweithrediadau Sifil - Gwaith Tir

## Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (EAL)

- Plymio a Gwresogi
- Gosodiadau Electrodechnegol

## Prentisiaeth L3 Adeiladu (City & Guilds)

- Leinio Sych (2)
- Toi a Theilio (2)
- Gweithrediadau sifil-Gwaith tir (2)
- Gweithrediadau Peiriannau (2)
- Gosod Brics (3)
- Gwaith coed pensaernïol (3)
- Saer y safle (3)
- Gosod fframiau pren (3)
- Peintiwr ac Addurnwr (3)
- Teilsio Waliau a Lloriau (3)
- Plastro Soled (3)

## Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (EAL)

- Crefftwr Gwresogi ac Awyru (3)
- Plymio a Gwresogi (3)
- Gwaith Gosod Electrodechnegol (4)

# Rheolau Cyfuno

# Rules of Combination

## Rheolau Cyfuno

I gael y Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2), rhaid i ddysgwyr gyflawni:

- **6 Uned graidd (101-106)**
- **2 uned benodol i grefft o'u dewis (107-116)**

**Cael gradd Pasio neu uwch yn y tri dull asesu, gyda chyfanswm o 540 o oriau dysgu dan arweiniad.**

# Rhifau a theitlau unedau craidd

# Core unit numbers and titles

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|
| 101 | Cyflwyniad i'r Amgylchedd Adeiledig | 15 |
| 102 | Cyflwyniad i'r crefftau yn y Sector Adeiladu | 30 |
| 103 | Cyflwyniad i gylch bywyd yr Amgylchedd Adeiledig | 55 |
| 104 | Cyflogadwyedd yn y Sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig | 30 |
| 105 | Amddiffyn Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd wrth weithio yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig | 48 |
| 106 | Cyflwyniad i dechnolegau newydd yn y sector Adeiladu ac Amgylchedd Adeiledig | 20 |

# Rhifau a theitlau uned dewisol
# Optional unit numbers and titles

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|
| 107 | Gweithio gyda Brics, Blociau a Cherrig. | 140 |
| 108 | Galwedigaethau Gwaith Coed | 140 |
| 109 | Plastro a Systemau Mewnol | 140 |
| 110 | Galwedigaethau gorffeniad addurniadol a phaentio diwydiannol | 140 |
| 111 | Galwedigaethau toi | 140 |
| 112 | Gweithrediadau adeiladu a Gweithrediadau peirianneg sifil | 140 |
| 113 | Plymio, Gwresogi ac Awyru | 140 |
| 114 | Gosod Systemau ac Offer Electrodechnegol | 140 |
| 115 | Gwaith Peiriannau | 140 |
| 116 | Teilsio Waliau a Lloriau | 140 |

# Enghreifftiau o Reol Gyfuno

# Rule of Combination Examples

| Dysgwr | Unedau Craidd | 107 WWBBS | 108 Pren | 109 PIS | 110 DFIP | 111 RO | 112 COCE | 113 PHV | 114 ESE | 115 PO | 116 WFT |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | | | | | | | | | | | |
| B | | | | | | | | | | | |
| C | | | | | | | | | | | |
| D | | | | | | | | | | | |
| E | | | | | | | | | | | |
| F | | | | | | | | | | | |
| G | | | | | | | | | | | |

# Oriau Dysgu Dan Arweiniad a’r Cyfanswm Oriau Cymhwyso
# Guided learning hours (GLH) and Total Qualification Time (TQT)

- **Mae'r Oriau Dysgu Dan Arweiniad** yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o ddysgu ac asesu dan oruchwyliaeth y mae'n rhaid ei wneud i ddarparu'r uned, a gellir eu defnyddio at ddibenion cynllunio.
  - 540 o Oriau Dysgu Dan Arweiniad

- **Cyfanswm Oriau Cymhwyso** yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y mae disgwyl i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae’n cynnwys y canlynol.
  - Addysgu
  - Oriau a dreuliwyd yn paratoi
  - Astudio
  - Gwneud rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol
  - 60 credyd/600 awr yw'r cyfanswm oriau cymhwyso ar gyfer y cymhwyster hwn



# Strwythur yr uned

# Unit Structure

# Strwythur uned
# Structure of a unit

## Deilliannau dysgu

Mae deilliannau dysgu yn grwpio rhannau o sgiliau ymarferol a/neu wybodaeth berthnasol gyda'i gilydd. Maent yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, hynny yw, beth mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud ar ôl yr addysgu a'r dysgu.

Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu.

## Meini Prawf Asesu

Mae meini prawf asesu yn dadansoddi'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w trafod. Y meini prawf hyn fydd yn cael eu hasesu yng nghyswllt y deilliant dysgu.

## Ystod

Mae ystod yn cynnwys gwybodaeth am ba mor eang mae'n ofynnol i faen prawf asesu penodol fod. Er enghraifft, y rhesymau gwirioneddol dros bentyrru a storio deunyddiau. Nid yw'r ystod yn rhestr gynhwysfawr, efallai fod enghreifftiau eraill a allai fod yn berthnasol i'r maes pwnc hwnnw.

– rhaid i bob elfen a restrir yn yr ystod gael ei chynnwys fel rhan o'r gwaith o gyflwyno'r uned.

# Strwythur uned
# Structure of a unit

Rhif yr Uned a'i Theitl

Lefel ac Oriau Dysgu dan Arweiniad

Disgrifiad Byr

Deilliannau dysgu

**Uned 106: Cyflwyniad i dechnolegau newydd yn y Sector Adeiladu ac Amgylchedd Adeiledig**

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **Oriau Dysgu dan Arweiniad:** | 20 |

**Gwybodaeth am yr uned?**

Pwrpas yr uned hon yw bod dysgwyr yn cael eu cyflwyno i dechnolegau newydd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig, eu defnyddiau a'u manteision i'r diwydiant. Bydd dysgwyr hefyd yn cael eu cyflwyno i dechnolegau sydd ar y gorwel ar gyfer y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig.

**Deilliant dysgu:**

1. Gwybod beth yw Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM) mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig

# Strwythur uned

# Structure of a unit

Deilliant dysgu
Rhif a Theitl

**Deilliant dysgu:**

**3. Gwybod beth yw adeiladu oddi ar y safle**

Meini prawf ac
ystod i'w trafod

**Meini Prawf**

3.1 Manteision adeiladu priffáb.

**Ystod**: cynaliadwyedd, gwerth, effeithlonrwydd.

3.2 Mathau o waith priffáb.

**Ystod**: mathau o adeiladau priffáb, cydrannau a chydosodiadau priffáb, defnyddiau, nodweddion, deunyddiau adeiladu

Deilliannau
cyflawni
(manylder y
cynnwys)

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o adeiladau priffáb, cydosodiadau a chydrannau a deunyddiau adeiladu a'u defnydd a'u nodweddion mewn gwaith adeiladu priffáb.
Mathau o adeiladau priffáb: systemau panel, systemau cyfeintiol, systemau hybrid (gan gynnwys podiau ystafelloedd ymolchi a cheginau).
Cydosodiadau a chydrannau: systemau toi a waliau, systemau lloriau, cydrannau a ddefnyddir mewn cydosodiadau (gan gynnwys podiau ystafelloedd ymolchi hybrid).
Deunyddiau adeiladu: concrit, dur, pren, hybrid



# Crynodeb o'r Asesiad

# Summary of Assessment

# Crynodeb o'r Asesiad
# Summary of assessments

Caiff y Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) ei asesu gan ddefnyddio 3 dull asesu

| Math o asesiad | Dull asesu | Pwysoliad (Cyfraniad at radd gyffredinol y cymhwyster) |
|---|---|---|
| **Asesiad ar-sgrîn** | **Wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol** | **20%** |
| Prosiect Ymarferol | Wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n fewnol | 60% |
| **Trafodaeth dan arweiniad** | **Wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n fewnol** | **20%** |

- Gallwch lawrlwytho pecyn asesu'n disgrifio gofynion yr asesiad oddi ar wefan Sgiliau i Gymru. https://www.skillsforwales.wales
- Mae manylion am bob asesiad ar gael yn yr adran manylion yr asesiadau yn y pecyn asesu.

# Asesiad
# Assessment

## Cwestiynau asesu prawf ar-sgrîn

**C1) Pa un o'r rhain sydd wedi'i ddylunio i gynnwys llofft yn yr atig?**

A) Byngalo dormer.

B) Tŷ teras.

C) Rhandy.

D) Cartref symudol statig.

**C2) Llusgwch o'r golofn chwith a gollwng yn y golofn dde i'w gwblhau. Cwblhewch y dilyniant o weithgareddau ar gyfer adeiladu tŷ waliau ceudod brics/ blociau yn gywir.**

| | |
|---|---|
| **Plastro'r tu mewn.** | A. …………. |
| **Llechi ar y to.** | B. Bricio'r walbant. |
| **Is-strwythur y DPC.** | C. …………. |
| | D. Leinins drysau. |
| | E. …………. |

**C3) Pa un o'r rhain sy'n bont grog?**

A.



B.



C.



D.



# Crynodeb o'r Asesiadau
# Summary of Assessments

**Asesiad ar-sgrîn**

- Dewis Lluosog
- Gosod yn Allanol
- Marcio awtomatig
- Derbynnir canlyniadau gan y ganolfan yr un diwrnod

**Prosiect Ymarferol**

- Marcio'n Fewnol
- Dilysu'n Allanol
- Marciau dros dro a roddir yn dilyn asesiad mewnol

**Trafodaeth dan Arweiniad**

- Wedi'i farcio'n fewnol a'i ddilysu'n allanol
- Marciau dros dro a roddwyd

**Canlyniadau cyffredinol cymwysterau**

- Rhaid rhoi graddau dros dro i ddysgwyr ar gyfer y prosiect ymarferol a'r drafodaeth dan arweiniad cyn pen wythnos i'w gwblhau.
- Sicrhau ansawdd yn fewnol ac yn allanol.
- City & Guilds fydd yn penderfynu ar y radd derfynol

**Ailgyflwyno/ailsefyll Asesiad**

- Pan na fydd dysgwr yn llwyddo i ennill gradd pasio mewn unrhyw un o'r asesiadau. Fe gân nhw ailsefyll/ailgyflwyno.

**Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn ystod gweminarau masnach penodol**



# Gweithgaredd

# Activity

# Cynlluniwr darparu y gellir ei addasu
# Adaptable delivery planner

**Cynllun darparu y gellir ei addasu ar gyfer ________________________Lefel ________ Blwyddyn Academaidd________**

| Tymor 1 Hydref/Gaeaf | Wythnos 1 | Wythnos 2 | Wythnos 3 | Wythnos 4 | Wythnos 5 | Wy |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiadau allweddol y Cymhwyster Technegol | | | | | | |
| Dyddiadau Ymsefydlu | | | | | | |
| Uned - | | | | | | |
| Uned - | | | | | | |
| Uned - | | | | | | |
| Uned - | | | | | | |
| Uned - | | | | | | |
| Uned - | | | | | | |
| Uned - | | | | | | |

| Tymor 2 Gaeaf/Gwanwyn | Wythnos 15 | Wythnos 16 | Wythnos 17 | Wythnos 18 | Wythnos 19 | Wyt |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Uned - | | | | | | |
| Uned - | | | | | | |
| Uned - | | | | | | |

Unedau mae modd eu golygu

Ffeil Excel mae modd ei golygu ar gyfer cynllunio o wythnos i wythnos

Rhifau wythnosau

Yn ystod y tymor



# Gweithgaredd
# Activity

- Cyn y weminar, fe ddylech chi fod wedi derbyn cynlluniwr cyflenwi arfaethedig ar gyfer y Cymhwyster Sylfaen a chynnwys uned 101
- Mae’r cynlluniwr darparu yn ddogfen mae modd ei golygu a allai fod o ddefnydd i chi wrth i chi ddechrau cynllunio eich darpariaeth yn barod ar gyfer mis Medi 2021.
- Ar gyfer y gweithgaredd hwn, fe hoffem i chi ddechrau drwy gwblhau nifer yr wythnosau ar y cynlluniwr cyflenwi rydych chi’n credu y bydd angen arnoch chi gyflenwi uned 101.
- Bydd gennych chi **20 munud** i gwblhau’r gweithgaredd ac yna 10 munud i ateb unrhyw gwestiynau fydd gennych chi.

# Paratoi ar gyfer darparu
# Preparation for delivery

- Mae'n cynnwys yr holl Unedau Sylfaen
- Taenlen y gellir ei golygu drwy ychwanegu/addasu fel bo angen
- Ategu'r cynllun gwaith
- Gellir ei argraffu at ddefnydd staff/ystafell ddosbarth
- Cynlluniwr gwag ar gael i ddarparwyr

## Cynlluniwr darparu uned sylfaen

## Foundation delivery planner

### Delivery Planner - Foundation in Construction and Building Services Engineer

Coloured box indicates suggested deliver
- this may be amended to suit each cent

| Term 1<br>Autumn/Winter | Week 1 | Week 2 | Week |
|---|---|---|---|
| College Induction | | | |
| Introduction to the Built Environment | | | |
| Introduction to the Trades in the Construction and Built Environment Sector | | | |
| Introduction to the Built Environment Life Cycle | | | |
| Employability in Construction and the Built Environment Sect | | | |
| Protecting Health, Safety and the Environment when working in the Construction and Built Environment Sector | | | |
| **Term 2<br>Winter/Spring** | **Week 15** | **Week 16** | **Week** |
| Protecting Health, Safety and the Environment when working in the Construction and Built Environment Sector | | | |
| Introduction to emerging technologies in Construction and the Built Environment Sector | | | |

Yn ystod y tymor

Rhifau wythnosau


Teitlau Unedau



# Adnoddau

# Resources

# Y Cymhwyster Sylfaen a Hodder Education
# The Foundation and Hodder Education



Mae Hodder Education yn edrych ymlaen at gefnogi'r cymhwyster Sylfaen newydd yn 2021.

Bydd y llyfr yn debyg, o ran ei gynllun, ei dôn a'i ddefnydd o nodweddion dysgu, i rai eraill Hodder Construction and Building Services sydd wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer City and Guilds.




- Mae modd gweld pennod enghreifftiol yma.
- Darpariaeth lawn o **chwe uned graidd y Cymhwyster Sylfaen**
- Byddwch yn barod ar gyfer y **gweithle gydag Awgrymiadau gan y Diwydiant**; nodiadau atgoffa Iechyd a Diogelwch; a chanllawiau o ran gwerthoedd ac ymddygiad
- **Profwch eich gwybodaeth** gydag amgylchiadau ymarferol ac astudiaethau achos mewn cyd-destun Cymreig
- **Paratowch ar gyfer asesiad** gyda phrofion amlddewis ac amgylchiadau ymarferol ar ddiwedd y bennod.

# Y Cymhwyster Sylfaen a Hodder Education
# The Foundation and Hodder Education

- Bydd Hodder hefyd yn cyhoeddi **dogfennau mapio am ddim**, sy’n dangos sut y gellir defnyddio cyhoeddiadau presennol Hodder i gyflwyno elfennau sy’n benodol i grefft.
- Byddai Hodder wrth eu bodd yn clywed eich barn am eu cynlluniau! Byddwn hefyd yn adolygu ein cynnwys cyn ei gyhoeddi a gallwn rannu deunyddiau enghreifftiol ymlaen llaw, fel eich bod chi’n gallu gweld sut y gallai helpu eich addysgu yn yr ystafell ddosbarth.
- Os hoffech chi ymuno â’n Tîm Athrawon, neu os hoffech chi adolygu cynnwys i Addysg Hodder, mae croeso i chi gysylltu â Tom Stotor (thomas.stothor-hoddereducation.co.uk).


**Cyhoeddir Gorffennaf 2021**
£28.99 – Ar gael mewn fformatau digidol a phrint!



# Deunyddiau CPD
# CPD Materials

**Deunyddiau CPD**
– rhyddhau am y tro cyntaf
**Ebrill 2021**

Bydd yna gylchlythyr chwarterol yn dwyn ynghyd y wybodaeth ddiweddaraf o’r farchnad.







Cynhyrchu deunyddiau ar gyfer CPD gan diwtoriaid – gan ddod â’r canlynol at ei gilydd:


- newyddion gan wneuthurwyr,
- datblygiadau technegol yn y sector,
- gwybodaeth am ddigwyddiadau a
- chynnwys defnyddiol o’r rhyngrwyd



# Deunyddiau cefnogi ar gyfer prosbectws darparwr
# Support material for provider prospectus


Construction and Building Services Engineering Qualifications

Support material for provider prospectuses


Construction and Building Services Engineering Qualifications

## Introduction to building the future

Construction and the built environment is one of the most important employment sectors in Wales.

It's estimated that there are 13,000 companies working in the sector, employing more than 130,000 people and contributing 6.5% of the country's Gross Value Added.

That's why Qualifications Wales chose it for a major review of the qualifications available in the industry.


Vocational qualifications, including those for construction and the built environment, make up 90% of the regulated qualifications available in Wales. As such, they need to reflect the skills that employers need.

The aim of the review was to assess the qualifications available in the sector and decide whether they needed to be changed in any way. A large part of this work involved meeting and talking with both large and small scale employers across Wales, as well as those teaching the qualifications in schools and colleges, to find out what they need.

We want to thank all our sector stakeholders for the support they have provided through the sector review and the part they are playing in helping guide these qualifications to meet the needs of employers, learners and delivery centres across Wales.

Particular thanks goes to the British Association of Construction Heads and the Stakeholder Advisory Group for their careful steering and wise guidance, which we are most grateful for.

4


## Cymwysterau yn barod i'w dysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2021

**Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)**

- Working with brick, block and stone
- Wood occupations
- Painting and decorating
- Plastering and interior systems
- Plumbing and domestic heating
- Roofing occupations
- Wall and floor tiling
- Electrotechnical systems and equipment
- Construction operations and civil engineering services
- Plant operations

**Cynnydd mewn Adeiladu (Lefel 2)**

- Gosod Brics
- Gwaith Coed Pensaernïol
- Gwaith Coed ar y Safle
- Gosod Fframiau Pren
- Peintio ac Addurno
- Plastro Soled
- Töwr - Llechi a Theils
- Leinio Sych – Gosod
- Gweithrediadau Adeiladu – Adeiladu Cyffredinol

**Cynnydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)**

- Gosod Systemau ac Offer Electro-dechnegol
- Plymio a Gwresogi

**Adeiladu Lefel 3 – Prentisiaeth arbenigo mewn crefft**

- Gosod brics
- Gwaith coed pensaernïol
- Gwaith coed ar y safle
- Gosod fframiau pren
- Peintio ac addurno
- Teilsio waliau a lloriau
- Plastro
- Gwaith toi - llechi a theils
- Gweithrediadau offer
- Leinio sych
- Gweithrediadau sifil - gweithiwr tir

**Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 - Plymio a Gwresogi**

Plymio a Gwresogi

**Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 - Gwaith Gosod Electro-dechnegol**

Gosod Systemau ac Offer Electro-dechnegol

### Manteision eraill cymryd y cymwysterau hyn:

- bydd y cymwysterau'n rhoi'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt i'ch gwneud yn fwy cyflogadwy
- bydd gennych adnoddau i'ch cefnogi drwy eich cwrs i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y cymwysterau
- wrth i chi symud drwy'r fframwaith cymwysterau, maent yn mabwysiadu dull symlach o asesu fel bod llai o ddyblygu asesiadau
- mae yna lwybrau cynnydd clir er mwyn i chi allu gweld eich llwybr ymlaen at astudio pellach neu i mewn i waith
- bydd gennych ddewis o adnoddau dysgu ac asesiadau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg)

6

# Dogfen adnoddau
# Resource document

Mae’r ddogfen hon yn rhoi trosolwg i ganolfannau o’r canllawiau ynghylch cefnogaeth i ddysgwyr a’r adnoddau fydd eu hangen ar gyfer darparu’r gyfres newydd o gymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu yng Nghymru. Efallai y bydd gofynion ychwanegol ar gyfer darparu’r brentisiaeth yn llawn.

This document provides providers with an overview of guidance around the resource and learner support that will be needed for the delivery of the new suite of Construction and Building Services Engineering qualifications in Wales. There may be additional requirements to deliver the full apprenticeship.

| Cam | Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) | Cymhwyster Craidd mewn Adeiladu neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) (Mae hyn ar gyfer dysgwyr sy’n mynd yn syth i brentisiaeth) | Cynnydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) Llwybrau masnach dewisol | Lefel 3 mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu Llwybrau masnach dewisol | Cynnydd mewn Adeiladu (Lefel 2) Llwybrau Masnach Dewisol | Lefel 3 mewn Adeiladu Llwybrau Masnach Dewisol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asesiad | Rheoli asesiadau<br>• Prawf amlddewis wedi’i osod yn allanol a’i farcio’n allanol<br>• Prosiect wedi’i osod yn allanol a’i farcio’n fewnol<br>• Trafodaeth dan arweiniad wedi’i hasesu’n fewnol | Rheoli asesiadau<br>• Prawf amlddewis wedi’i osod yn allanol a’i farcio’n allanol<br>• Prosiect wedi’i osod yn allanol a’i farcio’n fewnol<br>• Trafodaeth dan arweiniad wedi’i hasesu’n fewnol | Rheoli asesiadau<br>• Prosiect wedi’i leoli yn y ganolfan (yn benodol i Fasnach) wedi’i osod yn allanol a’i farcio’n fewnol<br>• Prawf amlddewis wedi’i osod yn allanol a’i farcio’n allanol<br>• Trafodaeth dan arweiniad wedi’i hasesu’n fewnol | Rheoli asesiadau<br>• Prosiect ymarferol yn y diwydiant – yn fewnol (cyflogwr/darparwr) wedi’i osod yn fewnol a’i asesu a’i farcio’n fewnol<br>• Prawf/profion amlddewis wedi’i osod yn allanol a’i farcio’n allanol<br>• Trafodaeth broffesiynol wedi’i hasesu’n allanol | Rheoli asesiadau<br>• Prosiect wedi’i leoli yn y ganolfan (yn benodol i Fasnach) wedi’i osod yn allanol a’i farcio’n fewnol<br>• Prawf amlddewis wedi’i osod yn allanol a’i farcio’n allanol<br>• Trafodaeth dan arweiniad wedi’i hasesu’n fewnol | Rheoli asesiadau<br>• Prosiect ymarferol yn y diwydiant – yn fewnol (cyflogwr/darparwr) wedi’i osod yn fewnol a’i asesu a’i farcio’n fewnol<br>• Prawf/profion amlddewis wedi’i osod yn allanol a’i farcio’n allanol<br>• Trafodaeth broffesiynol wedi’i hasesu’n allanol |
| Sicrhau ansawdd | Sicrhau Ansawdd Mewnol y Prosiect, trafod a chyflwyno canlyniadau | Sicrhau Ansawdd Mewnol y Prosiect, trafod a chyflwyno canlyniadau | Sicrhau Ansawdd Mewnol y Prosiect, trafod a chyflwyno canlyniadau | Sicrhau Ansawdd Mewnol y Prosiect, trafod a chyflwyno canlyniadau | Sicrhau Ansawdd Mewnol y Prosiect, trafod a chyflwyno canlyniadau | Sicrhau Ansawdd Mewnol y Prosiect, trafod a chyflwyno canlyniadau |
| Dilysu | Dilysu’n allanol | Dilysu’n allanol | Dilysu’n allanol | Dilysu’n allanol | Dilysu’n allanol | Dilysu’n allanol |
| Ardystio | Consortiwm i Ardystio’r dysgwr | Consortiwm i Ardystio’r dysgwr | Consortiwm i Ardystio’r dysgwr | Consortiwm i Ardystio’r dysgwr | Consortiwm i Ardystio’r dysgwr | Consortiwm i Ardystio’r dysgwr |

| Stage | Foundation in Construction and Building Services Engineering (Level 2) | Core in Construction or Building Services Engineering (Level 2) (This is for learners who go straight to an apprenticeship) | Progression in Buliding Services Engineering (Level 2) Optional trade routes | Level 3 Building Services Engineering Optional trade routes | Progression in Construction (Level 2) Optional Trade Routes | Level 3 Construction Optional Trade Routes |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pre delivery Stage | Apply for approval | Apply for approval | Apply for approval | Apply for approval | Apply for approval | Apply for approval |
| Registering learners | Register learners<br>Select two trade routes | Register learners<br>Select one trade route | Register learners<br>Select one trade route | Register apprentices<br>Select one trade route | Register learners<br>Select one trade route | Register apprentices<br>Select one trade route |
| Delivery | Deliver qualification content:<br>• 6 core units<br>• Two trade routes<br>Deliver and invigilate, externally set and marked, multiple choice health and safety test (details of which are under review)<br>Periodically review learner progress | Deliver qualification content:<br>• 6 core units<br>• One trade route<br>Deliver and invigilate, externally set and marked, multiple choice health and safety test (details of which are under review)<br>Periodically review learner progress | Deliver programme content:<br>• 4 core units<br>• Trade specific units<br>Periodically review learner progress | Deliver qualification content:<br>• Initial employer meeting to identify range of tasks required to meet the industry occupational requirements.<br>• Develop quality assurance check for employer confirmation process.<br>• Periodic reviews of progress and quality checks of evidence.<br>• Final review meeting with employer and confirmation document completion. | Deliver programme content:<br>• 4 core units<br>• Trade specific units<br>Periodically review learner progress | Deliver qualification content:<br>• Initial employer meeting to identify range of tasks required to meet the industry occupational requirements.<br>• Develop quality assurance check for employer confirmation process.<br>• Periodic reviews of progress and quality checks of evidence.<br>• Final review meeting with employer and confirmation document completion. |

# Adnoddau Tiwtoriaid
# Tutor Resources


Adnoddau newydd i diwtoriaid ar gyfer holl unedau'r Cymhwyster Sylfaen – a gyflwynir ar gyfer mis **Ebrill** 2021

Mae aelodau o bob rhan o golegau BACH wedi cael cynnig rôl adolygu.

Bydd CITB yn adolygu.

Bydd FMB yn adolygu.

Bydd arbenigwyr yn adolygu o safbwynt Treftadaeth


Foundation Qualification in
Construction and the Built Environment

Types of block

Blocks can be manufactured from a coarse material (aggregate) or fine insulating materials such as pulverised fuel ash (PFA).

Coarse aggregate blocks are usually

5 of 14

Foundation Qualification in
Construction and the Built Environment
Unit 7.1 Worksheet 2


Unit 7.1: Working with brick, block and stone

Worksheet 2: Protecting materials (learner)

Foundation Qualification in
Construction and the Built Environment
Unit 7.1 Worksheet 1

Unit 7.1: Working with brick, block and stone

Worksheet 1: Preparing the work area (learner)


Foundation Qualification in
Construction and the Built Environment

Types of brick

When used as a material for constructing walls, brick can broadly be split into two categories:

- Face brick
- Common brick

Face brick can become the external finish of the structure. There are a huge range of face bricks in many different colours and textures that can be used in a building design.

Common bricks can be manufactured from clay or concrete and are often out of sight behind render or cladding.

Copyright © xxxxxxxx. All rights reserved.

3 of 14


Darparu cefnogaeth benodol a manwl i diwtoriaid ar gyfer y meysydd lle mae'r angen/ansicrwydd mwyaf pan fyddan nhw'n cyflwyno'r cymwysterau hyn am y tro cyntaf

# Dolenni i adnoddau sy’n cael eu rhannu
# Links to Shared Resources

**Adnoddau presennol a gynhyrchir gan drydydd partïon i gael eu hychwanegu at wefan y consortiwm**

Rydyn ni’n cysylltu â’r adnoddau sydd ar gael ar HWB.cymru

Byddwn yn cysylltu â chyrsiau perthnasol gan gyrff masnach a diwydiant fel e-ddysgu CITB a NFB.


adeiladwaith

Yr Amgylchedd Adeiledig


Built Environment

Llyfr Gwaith Bricwaith

Brickwork Workbook

Mae rhai canolfannau wedi mynegi diddordeb mewn rhannu cynnwys.

Bydd amrywiaeth o adnoddau ar gael ar wefan Sgiliau i Gymru, gan gynnwys y rhai a ddangosir yma.


colegsirgâr

| | |
|---|---|
| Adran: Department: | Yr Amgylchedd Adeiledig Built Environment |
| Cwrs: Course: | |
| Lefel: Level: | |
| Uned: Unit: | *Ymarferion i ddatblygu Gwybodaeth Greiddiol ar gyfer Rhoi Papurau Safonol ar Waliau a Nenfydau* *Exercises to develop Underpinning knowledge for Applying Standard Papers to Walls and Ceilings.* |

| | |
|---|---|
| **Enw’r Ymgeisydd: Name of Candidate:** | |
| **Enw’r Tiwtor: Name of Tutor:** | |



# Y Camau Nesaf

# Next Steps


# Amserlen 2021
# Timeline 2021

### Cefnogaeth yn y Dyfodol:

- Trosolwg o'r Cynnydd a Phenodol i'r Sector
- Prentisiaethau
- Addysgu, Dysgu ac Asesu

### Upcoming Support:

- Progression overview and sector specific
- Apprenticeships
- Teaching and Learning and Assessment



# Llinellau amser cymeradwyo
# Approval timelines

**Ionawr 2021**

Ffurflenni cymeradwyo a dogfennau ategol ar gael ddiwedd Ionawr 2021

**Chwefror / Mawrth 2021**

Cefnogaeth ar gael gan City & Guilds ac EAL Timau Ansawdd i gwblhau'r ceisiadau

**Mawrth 2021**

Disgwylir y don gyntaf o geisiadau cymeradwyo

**Ebrill 2021**

Disgwylir y don gyntaf o benderfyniadau cymeradwyo

**Mai / Meh 2021**

Disgwylir y rhan fwyaf o'r ceisiadau (dyddiad cais olaf a argymhellir ar gyfer Darparu ar 1 Medi: Mehefin)

**1 Medi 2021**

Cymwysterau'n mynd yn fyw

# Gwybodaeth Gyswllt
# Contact Information

| City & Guilds | EAL |
|---|---|
| **Tîm Ansawdd (Tîm Ansawdd / Gwledydd 1)**:<br>0300 303 5352<br>skillsforwales.quality@cityandguilds.com | **Tîm Ansawdd**:<br>01923 652400<br>skillsforwales.quality@eal.org.uk |
| **Gwasanaeth i Gwsmeriaid**:<br>0844 543 0000<br>skillsforwales.customer@cityandguilds.com | **Tîm Profiad Cwsmeriaid**:<br>01923 652400<br>skillsforwales.customer@cityandguilds.com |

| City & Guilds | EAL |
|---|---|
| **Quality team (Nations / Quality Team 1)**:<br>0300 303 5352<br>skillsforwales.quality@cityandguilds.com | **Quality team**:<br>01923 652400<br>skillsforwales.quality@eal.org.uk |
| **Customer Service**:<br>0844 543 0000<br>skillsforwales.customer@cityandguilds.com | **Customer Experience Team**:<br>01923 652400<br>skillsforwales.customer@cityandguilds.com |

# Crynhoi
# Recap





Bydd **cymwysterau newydd** ar gael i ddysgwyr sy'n cofrestru ar neu ar ôl 1 Medi 2021

Bydd dysgwyr sy'n symud ymlaen trwy *drosglwyddo yn parhau i gael eu hariannu ar y cymwysterau presennol hyd at fis Mai 2022
*Gweler y rheolau trosglwyddo


**Bydd yna gyfnod pontio** er mwyn i ddysgwyr sydd eisoes yn gweithio tuag at gymwysterau allu eu cwblhau.

Mae yna gwestiynau cyffredin ar y wefan a byddant yn parhau i gael eu diweddaru

# Cofrestru ar gyfer Gweminarau
# Register for Webinars




[Hyfforddiant a digwyddiadau | Sgiliau i Gymru]



# Trefniadau trosiannol
# Transition arrangements

Trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr a chanolfannau yn ystod y broses o gyflwyno'r cymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu newydd yng Nghymru.

| | Proffil | Pwynt mynediad |
|---|---|---|
| 1 | Dysgwyr AB sydd wedi cwblhau **cymhwyster lefel 1 eang yn ystod haf 2021**, fel sgiliau adeiladu lefel 1, sy'n parhau mewn addysg bellach amser llawn. | Byddai'r dysgwyr hyn yn symud ymlaen i'r **Cymhwyster Sylfaen** newydd mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2). |
| 2 | Dysgwyr AB a fydd wedi cwblhau **cymhwyster lefel 1 sy'n benodol i grefft** yn ystod haf 2021, sy'n parhau mewn addysg bellach amser llawn. (Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu) | Byddai'r dysgwyr hyn yn cael cyfle i symud ymlaen i'r canlynol:<br>▪ y **Cymhwyster Sylfaen** newydd mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)<br>▪ neu un o'r cymwysterau **Dilyniant** (Lefel 2).<br>▪ Er ein bod yn annog canolfannau i symud dysgwyr ymlaen i'r cymwysterau newydd, rydym yn caniatáu estyniad o ddynodiad y cymwysterau lefel 2 AB cyfredol sy'n benodol i grefft tan 31 Mai 2022. |
| 3 | Dysgwyr AB a fydd wedi cwblhau cymhwyster lefel 1 sy'n benodol i grefft yn ystod haf 2021 sy'n dechrau **prentisiaeth.** (Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu) | Byddai'r dysgwyr hyn yn dechrau'r cymwysterau newydd Adeiladu Lefel 3 neu Wasanaethau Adeiladu Lefel 3. |

**I ddysgwyr sy'n dechrau dysgu a hyfforddi o fis Medi 2021 ymlaen, disgwylir y byddant yn dechrau astudio tuag at y cymwysterau newydd.**



**Cwestiynau? *Questions*?**

Teipiwch eich cwestiynau yn y tab
cwestiynau ar ochr eich panel ar y sgrin

*Please type your questions into the questions tab*
*to the side of your on-screen panel*

# Mae eich adborth yn helpu

Mae eich adborth yn bwysig i ni ac mae'n ein helpu i wneud yn siŵr ein bod yn cyfathrebu yn y ffordd gywir, ac mae'n rhoi gwybod i ni pan fo angen gwella'r wybodaeth rydyn ni'n ei rhoi i chi.

Cadwch lygad am e-bost yn gofyn i chi am eich adborth ar y weminar hon.

# Your feedback helps

Your feedback is important to us as it can really help us make sure we are communicating in the right way, and informs us on how to make improvements to the information we provide you.

Please look out for an email asking for your feedback on this webinar.

# Diolch yn fawr
# Thank you

**Diolch yn fawr iawn i chi am wrando ac am eich cwestiynau.**
Os oes gennych chi ddiddordeb mewn helpu i ddatblygu'r cymwysterau hyn, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiwn arall, cysylltwch â skillsforwales.customer@cityandguilds.com

**Thank you very much for listening and for your questions.**
If you have any further questions, then please contact skillsforwales.customer@cityandguilds.com.

